



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

Actau 5: 1-11



- 1 Roedd rhai o'r Cristnogion cyntaf yn gwerthu eu heiddo ac yn rhoi'r arian i helpu eraill oedd mewn angen. Roedd dyn o'r enw Ananias, a'i wraig Saffeira, wedi gwerthu peth o'u heiddo. Ond dyma Ananias yn cadw peth o'r arian iddo'i hun a mynd â'r gweddill i'r apostolion gan honni mai dyna'r cwbl oedd wedi ei gael. Roedd e a'i wraig wedi cytuno mai dyna fydden nhw'n ei wneud.



- 2 Roedd Pedr yn gwybod ei fod yn dweud celwydd. Dwedodd wrtho, "Ananias, pam rwyd ti wedi gadael i Satan gael gafael ynot ti? Rwyd ti wedi dweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân trwy gadw peth o'r arian gest ti am y tir i ti dy hun!



-
- 3 Ti oedd biau'r tir, ac roedd gen ti hawl i wneud beth fynnet ti â'r arian. Beth wnaeth i ti feddwl gwneud y fath beth? Dim wrthon ni rwyf ti wedi dweud celwydd, ond wrth Dduw!"



-
- 4 Pan glywodd Ananias hyn, syrthiodd yn farw yn y fan a'r lle. Roedd pawb glywodd beth ddigwyddodd wedi dychryn am eu bywydau.



-
- 5 Rhyw dair awr wedyn dyma'i wraig, Saffeira, yn dod i'r golwg. Doedd hi'n gwybod dim byd am yr hyn roedd wedi digwydd.



-
- 6 Felly, dyma Pedr yn gofyn iddi, "Dywed wrtho i, ai dyma faint o arian gest ti ac Ananias am y tir wnaethoch chi ei werthu?" "Ie," meddai hi, "dyna'n union faint gawson ni."



-
- 7 "Beth wnaeth i'r ddau ohonoch chi gytuno i roi Ysbryd yr Arglwydd ar brawf?" gofynnodd Pedr. "Gwranda! Mae'r dynion ifanc wnaeth gladdu dy wŷr di tu allan i'r drws, a byddan nhw'n dy gario di allan yr un fath."



-
- 8 A dyma hithau yn disgyn ar lawr yn farw yn y fan a'r lle. Daeth y dynion ifanc i mewn, gweld ei bod hi'n farw, a'i chario hithau allan i'w chladdu wrth ymyl ei gŵr. Roedd yr eglwys i gyd, a phawb arall glywodd am y peth, wedi dychryn am eu bywydau.



-
- 9 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
